
Hawdd ei Ddeall

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

Barod i Bleidleisio

# Eich canllaw i bleidleisio yn etholiad y Senedd

## Dyddiad yr etholiad: Dydd Iau 7 Mai 2026




Beth ydy'r Senedd

Pam mae eich pleidlais chi yn bwysig

Pwy sydd yn gallu pleidleisio

Cofrestru i bleidleisio

Sut i bleidleisio

Penderfynu pwy i bleidleisio drosto

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

# Cynnwys


Beth ydy'r Senedd ........ 3

Pam mae eich pleidlais chi yn bwysig ........ 7

Pwy sydd yn gallu pleidleisio mewn etholiad yn y Senedd ........ 9

Cofrestru i bleidleisio ........ 10

Sut i bleidleisio ........ 13

Penderfynu pwy i bleidleisio drosto ........ 24

# Beth ydy’r Senedd



Senedd Cymru ydy’r Senedd. **Mae’n wahanol i Lywodraeth Cymru**.



Mae’r Senedd yn cynnwys y bobl rydych chi’n pleidleisio amdanyn nhw yn Etholiadau’r Senedd.




Mae etholiad nesaf y Senedd ym mis **Mai 2026**. Mae’n gyfle i chi gael dweud eu dweud am pwy sy’n dod yn Aelod o’r Senedd i chi.



Mae Aelodau o’r Senedd yn cynrychioli’r bobl yn eu hardal bleidleisio. Maen nhw’n siarad am y problemau rydych chi’n eu hwynebu, ac yn gwneud yn siŵr bod eich llais yn cael ei glywed pan mae penderfyniadau yn cael eu gwneud.




Mae'r Senedd yn gwneud deddfau a pholisïau i Gymru am bethau fel:









- Gwasanaethau iechyd.
- Gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.
- Addysg.
- Trafnidiaeth gyhoeddus.
- Ffyrdd a therfynau cyflymder.
- Tai.
- Ffermio.
- Chwaraeon a diwylliant – fel y celfyddydau, amgueddfeydd a llyfrgelloedd.



Mae yna rai pethau nad oes gan y Senedd  rym drostyn nhw. Mae hyn oherwydd eu bod yn cael eu rheoli gan Lywodraeth y DU.



Er enghraifft, dydy'r Senedd **ddim yn gallu** gwneud deddfau neu bolisïau am:




- **Materion tramor** – fel prynu a gwerthu nwyddau o wledydd eraill a delio â materion fel rhyfel a diogelwch.



- **Amddiffyn** – fel gwneud penderfyniadau am  ble mae ein lluoedd arfog yn mynd a beth maen nhw'n ei wneud.



- **Mewnfudo** – rheolau am pwy sydd yn gallu dod i'r wlad i aros, gweithio neu fyw.




- **Budd-daliadau lles** - fel PIP, DLA a Chredyd Cynhwysol.

# Llywodraeth Cymru



Mae arweinydd y blaid wleidyddol sy'n cael y nifer fwyaf o bleidleisiau mewn etholiad, fel arfer yn arwain Llywodraeth Cymru.



Mae arweinydd Llywodraeth Cymru yn cael ei g/alw yn Brif Weinidog.



Mae'r Prif Weinidog yn dewis tîm o ysgrifenyddion a gweinidogion i ffurfio Llywodraeth Cymru.



Mae Llywodraeth Cymru yn rhedeg gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac yn awgrymu deddfau newydd. Mae eu gwaith yn cael ei wirio gan y Senedd.

# Pam mae eich pleidlais chi yn bwysig



Mae pleidleisio mewn etholiad yn y Senedd yn bwysig. Mae'n gyfle i chi ddewis pwy ydych chi'n meddwl ydy'r bobl orau i wneud penderfyniadau i ni yng Nghymru.



Mae'r bobl rydych chi'n pleidleisio amdanyn nhw yn dod yn Aelodau o'r Senedd, neu ASau yn fyr.



Mae ASau yn gyfrifol am lawer o bethau sy'n effeithio ar ein bywydau.



Maen nhw'n ceisio cael Llywodraeth Cymru i wneud newidiadau a fyddai'n helpu eu hardal leol.



Mae AS yn siarad am y problemau rydych chi'n eu hwynebu, a gwneud yn siŵr bod eich llais yn cael ei glywed pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud.



Rydych chi'n gallu cysylltu â'ch AS a gofyn iddyn nhw fynd â materion i'r Senedd.




Rydych chi'n gallu darganfod sut i gysylltu â'ch AS yma: [senedd.cymru/dod-o-hyd-i-aelod-o-r-senedd](senedd.cymru/dod-o-hyd-i-aelod-o-r-senedd)

# Pwy sydd yn gallu pleidleisio mewn etholiad yn y Senedd




**I bleidleisio yn etholiad y Senedd mae'n rhaid i chi:**

- Bod wedi **cofrestru i bleidleisio.**



- Bod yn 16 oed neu'n hŷn.



- Byw yng Nghymru.




- Peidio â chael eich gwahardd rhag pleidleisio yn ôl y gyfraith. Er enghraifft, oherwydd eich bod yn y carchar, neu oherwydd eich bod o dan 16 oed.




I gael rhagor o wybodaeth am bleidleisio, ewch i:

- wefan y Senedd: senedd.cymru/etholiad
- bwrwpleidlais.cymru

# Cofrestru i bleidleisio



Cyn i chi allu pleidleisio yn etholiad y Senedd, **rhaid i chi gofrestru i bleidleisio**.





**Rydych chi'n gallu cofrestru i bleidleisio yma:**
gov.uk/register-to-vote




Rhaid i chi gofrestru i bleidleisio erbyn **hanner nos ar 20 Ebrill 2026**.




Fel arfer mae'n cymryd tua 5 munud i gofrestru.




Mae'n ddefnyddiol cael eich rhif Yswiriant Gwladol yn barod. Mae eich rhif Yswiriant Gwladol ar eich slip cyflog neu lythyrau gan y Llywodraeth.



Os ydych chi angen help, gofynnwch i rywun rydych chi yn ymddiried ynddyn nhw.



Os nad ydych chi yn siŵr a ydych chi wedi cofrestru i bleidleisio, cysylltwch â'ch Swyddfa Cofrestru Etholiadol leol: [www.gov.uk/contact-electoral-registration-office](www.gov.uk/contact-electoral-registration-office) i holi.




**Dim ond unwaith mae angen i chi gofrestru i bleidleisio**. Dim bob tro y bydd etholiad.



Os bydd eich enw, cyfeiriad, neu genedligrwydd yn newid, fe fydd angen i chi gofrestru eto.



Mae gan Lywodraeth y DU ganllaw Hawdd ei Ddeall i gofrestru i bleidleisio yma: [www.gov.uk/government/publications/registering-to-vote-easy-read-guide](www.gov.uk/government/publications/registering-to-vote-easy-read-guide)

# Sut i bleidleisio

**Mae tair ffordd o bleidleisio:**



- **Yn bersonol**. Ewch i orsaf bleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad.




- **Drwy'r post**. Anfonwch eich pleidlais i mewn.



- **Drwy ddirprwy**. Rhywun rydych chi'n ymddiried ynddyn nhw yn pleidleisio drosoch chi



Rydych chi'n gallu dewis y ffordd sy'n gweithio orau i chi.

# Pleidleisio yn bersonol




Dydych chi **ddim** angen ID â llun  i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd.




Rhaid i chi gofrestru i bleidleisio erbyn 12pm hanner nos dydd Llun 20 Ebrill 2026.



Pan fyddwch chi wedi cofrestru i bleidleisio, fe fyddwch chi yn cael cerdyn pleidleisio yn y post. Fe fydd hyn yn cael ei anfon atoch chi tua 3 wythnos cyn yr etholiad.




Fe fydd y cerdyn pleidleisio yn dweud wrthych chi pa orsaf bleidleisio i fynd iddi i bleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad - **Dydd Iau 7 Mai 2026**.




Gorsaf bleidleisio ydy'r lle rydych chi'n mynd i bleidleisio mewn etholiad. Dim ond yn yr orsaf bleidleisio sydd yn cael ei enwi ar eich cerdyn pleidleisio rydych chi'n gallu pleidleisio.




Mae **gorsafoedd pleidleisio** fel arfer mewn lleoedd fel llyfrgelloedd, ysgolion, a chanolfannau cymunedol.




**Mae gorsafoedd pleidleisio ar agor rhwng 7am a 10pm ar ddiwrnod yr etholiad - Dydd Iau 7 Mai 2026**.



Os byddwch chi'n colli eich cerdyn pleidleisio ac yn anghofio ble mae'ch gorsaf bleidleisio, rydych chi'n gallu edrych ar-lein – fe fydd angen i chi roi eich cod post: electoralcommission.org.uk/cy/pleidleisio-ac-etholiadau




Ewch i'ch gorsaf bleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad rhwng yr amseroedd yma. Fe fydd staff yn yr orsaf bleidleisio i'ch helpu.



Pan fyddwch chi'n cyrraedd eich gorsaf bleidleisio, mae angen i chi ddweud wrth y staff beth ydy eich enw a'ch cyfeiriad. Fe fyddan nhw yn edrych i weld eich bod chi ar y gofrestr pleidleisio.



Os ydy popeth yn iawn, fe fyddan nhw'n rhoi papur pleidleisio i chi. Dyma ddalen o bapur sy'n rhestru'r pleidiau gwleidyddol a'r ymgeiswyr annibynnol rydych chi'n gallu pleidleisio drostyn nhw.



Ewch i un o'r bythau pleidleisio. Mae hwn yn ardal breifat lle rydych chi'n gallu pleidleisio, felly mae eich dewis yn gyfrinachol.




Mae pawb yn cael 1 pleidlais. Rhowch groes yn y blwch wrth ymyl yr ymgeisydd annibynnol neu'r blaid wleidyddol rydych chi am bleidleisio drostyn nhw.



Fe fydd cyfarwyddiadau yn y bwth ac ar eich papur pleidleisio ar sut i bleidleisio.



Pan fyddwch chi'n gorffen, rhowch eich papur pleidleisio yn y blwch pleidleisio mawr.



Os ydych chi angen help, gofynnwch i'r staff yn yr orsaf bleidleisio. Rydych chi'n gallu mynd â rhywun gyda chi am gefnogaeth.

# Pleidleisio drwy'r post




Os ydych chi eisiau pleidleisio drwy'r post, rhaid i chi wneud cais erbyn **5pm dydd Mawrth 21 Ebrill** 2026. Rhaid i chi fod wedi'ch cofrestru i bleidleisio yn gyntaf.

I wneud cais, mae angen i chi lenwi ffurflen. Rydych chi'n gallu:



- Lawrlwytho, argraffu a phostio'r ffurflen. Rydych chi'n gallu lawrlwytho'r ffurflen yma: www.gov.uk/government/publications/apply-for-a-postal-vote



- Gofyn i'ch S**wyddfa Cofrestru Etholiadol** lleol anfon y ffurflen i chi. Mae eu manylion yma: www.gov.uk/contact-electoral-registration-office




**Cyn gwneud cais, gwnewch yn siŵr bod gennych chi:**

- Dyddiad geni
- Cyfeiriad lle rydych chi wedi cofrestru i bleidleisio
- Rhif Yswiriant Gwladol



Os ydych chi angen help gyda'ch ffurflen, cysylltwch â'ch Swyddfa Cofrestru Etholiadol leol. Rydych chi'n gallu dod o hyd i'ch un chi yma: [www.gov.uk/contact-electoral-registration-office](www.gov.uk/contact-electoral-registration-office)



Mae canllaw Hawdd ei Ddeall i wneud cais am bleidlais bost ar gael yma: [www.gov.uk/government/publications/apply-for-a-postal-vote-easy-read-guide](www.gov.uk/government/publications/apply-for-a-postal-vote-easy-read-guide)



Rydych chi'n gallu ffonio llinell gymorth y Comisiwn Etholiadol ar 0800 328 0280 am help.

# Beth fydd yn digwydd nesaf




Tua 3 wythnos cyn yr etholiad, fe fyddwch chi yn cael eich pecyn pleidleisio drwy'r post. Cadwch ef yn ddiogel a pheidiwch â gadael i unrhyw un arall ei ddefnyddio.




Dilynwch y cyfarwyddiadau yn y pecyn pleidleisio.



Postiwch eich pleidlais bost wedi'i chwblhau yn ôl cyn gynted â phosibl. Dydych chi ddim angen stamp.



Os nad ydych chi yn gallu ei phostio eich hun, gofynnwch i rywun rydych chi yn ymddiried ynddyn nhw am help neu cysylltwch â'ch cyngor.




Rhaid i'ch pleidlais bost gyrraedd eich cyngor lleol erbyn **10pm ddydd Iau 7 Mai 2026**. Anfonwch ef cyn gynted ag y gallwch i wneud yn siŵr ei fod yn cael ei gyfrif.




Rydych chi'n gallu rhoi eich pleidlais bost yn eich gorsaf bleidleisio os ydych chi'n anghofio ei bostio mewn pryd

# Pleidleisio drwy ddirprwy



Mae hyn yn meddwl dewis rhywun i bleidleisio drosoch chi mewn gorsaf bleidleisio.



Fe ddylai'r person rydych chi'n ei ddewis fod yn rhywun rydych chi'n ymddiried ynddyn nhw. Nhw ydy eich dirprwy. Dywedwch wrthyn nhw pa ymgeisydd rydych chi eisiau pleidleisio drosto.




Rhaid i chi wneud cais am bleidlais drwy ddirprwy erbyn 5pm ddydd Mawrth 28 Ebrill 2026. Rhaid i chi fod wedi'ch cofrestru i bleidleisio yn gyntaf.




Mae canllaw Hawdd ei Ddeall i wneud cais am bleidlais drwy ddirprwy ar gael yma: [www.gov.uk/government/publications/apply-for-a-proxy-vote-easy-read-guide](https://www.gov.uk/government/publications/apply-for-a-proxy-vote-easy-read-guide)

**Cyn gwneud cais, gwnewch yn siŵr bod gennych chi:**




- Cyfeiriad lle rydych chi wedi cofrestru i bleidleisio
- Rhif Yswiriant Gwladol. Neu fath arall o ID, fel eich tystysgrif geni
- Manylion cyswllt eich dirprwy



- Rheswm rydych chi eisiau pleidlais drwy ddirprwy. Er enghraifft, oherwydd eich bod chi'n anabl neu fod gennych chi broblemau meddygol, neu oherwydd eich bod i ffwrdd neu'n gweithio yn y lluoedd arfog.




Os ydych chi angen help, cysylltwch â'ch Swyddfa Cofrestru Etholiadol leol. Rydych chi'n gallu dod o hyd i'ch un chi yma: [www.gov.uk/contact-electoral-registration-office](http://www.gov.uk/contact-electoral-registration-office)



Rydych chi'n gallu ffonio llinell gymorth y Comisiwn Etholiadol ar 0800 328 0280 am help.

# Penderfynu pwy i bleidleisio drosto



Eich dewis chi ydy hyn. Mae'n gallu bod yn anodd penderfynu.



Mae'n gallu bod o help i siarad â theulu a ffrindiau am beth sy'n bwysig i chi. Ond cofiwch mai eich dewis chi ydy hyn. Does neb yn gallu dweud wrthych chi am bwy i bleidleisio.




I ddysgu am yr ymgeiswyr a'r pleidiau gwleidyddol yn eich ardal ewch i Pwy allai bleidleisio ar gyfer: whocanivotefor.co.uk



Rydych chi'n gallu darllen am beth sy'n bwysig iddyn nhw.



Rydych chi’n gallu cysylltu â nhw i ofyn cwestiynau.



Mae’r ymgeiswyr yn gallu curo ar eich drws neu fod yn eich ardal chi. Rydych chi’n gallu gofyn cwestiynau iddyn nhw i ddysgu am beth maen nhw’n feddwl.




Mae’r rhan fwyaf o ymgeiswyr yn rhan o blaid wleidyddol.



Dyma rai o’r pleidiau sy’n sefyll yn Etholiad y Senedd

- Y Blaid Lafur
- Y Blaid Geidwadol
- Plaid Cymru
- Y Blaid Werdd
- Democratiaid Rhyddfrydol
- Reform



Rydych chi'n gallu darllen **maniffesto** plaid wleidyddol  i ddeall eu barn a'u syniadau. Mae **maniffesto** yn dweud wrthych chi beth maen nhw'n addo ei wneud os ydyn nhw'n ennill yr etholiad.



Mae rhai ymgeiswyr yn annibynnol. Mae hyn yn meddwl nad ydyn nhw'n rhan o blaid wleidyddol. Rydych chi'n gallu dysgu amdanyn nhw ar wefan www.whocanivotefor.co.uk.



Fe fydd dadleuon ar y teledu hefyd. Dyma lle mae ymgeiswyr yn siarad am eu syniadau ac yn ateb cwestiynau am faterion pwysig.



I gael rhagor o wybodaeth am bleidleisio yn etholiad y Senedd, gan gynnwys gwybodaeth hawdd ei ddeall, ewch i wefan bwrwpleidlais.cymru.



Pwy bynnag rydych chi'n dewis pleidleisio drostyn nhw, mae eich pleidlais chi yn bwysig. **Gwnewch yn siŵr bod eich llais yn cael ei glywed yn etholiad y Senedd 2026**.

Photosymbols®

Publisher Licence 403527247